# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 2025

**Aelodau o Bwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, MBE, Cadeirydd
- Dr Philip Hollington
- Dr John Williams
- Dave Holland
- Georgia Taylor
- Helen Taylor

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Sian Bowsley – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Christie O'Keefe – Rheolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a'r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- Jonathan Davies – Pennaeth Polisi Safonau a Diogelu Defnyddwyr

**Cyflwynwyr:**

- Yr Athro Robin May – Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB
- Daniel Lloyd – Arweinydd Tîm Cynhyrchion Rheoleiddiedig, Asesiad Risg – Blwch Tywod Cynhyrchion a Wneir drwy Feithrin Celloedd
- Joshua Ravenhill – Pennaeth Rhaglen Blwch Tywod Cynhyrchion a Wneir drwy Feithrin Celloedd
- Mark Bond – Uwch-reolwr Polisi – Blwch Tywod Cynhyrchion a Wneir drwy Feithrin Celloedd

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau gan Jessica Williams. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Chwefror 2025.

## 2. Datgan buddiannau

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau newydd.

## 3. Cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd (CCP)

3.1 Rhoddodd **yr Athro Robin May, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB**, drosolwg o gynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd, gan egluro bod y dechnoleg hon yn arloesol ac, o bosib, yn drawsnewidiol. Aeth ati i egluro sut mae'r cynhyrchion hyn, sydd wedi'u tyfu mewn labordy, yn wahanol i gynhyrchion traddodiadol, sy'n cael eu tyfu mewn cae. Rhoddodd Robin wybod am y cyllid gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) ar gyfer datblygu cyfundrefn i sicrhau diogelwch y cynhyrchion hyn, gan bwysleisio pwysigrwydd dull gweithredu ledled y DU, gan gydweithio'n agos â chydweithwyr yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban. Nododd Robin hefyd y pryderon ynghylch y dechnoleg hon, fel y bygythiad canfyddedig i amaethyddiaeth, bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth, a'r ddadl ehangach ynghylch bwydydd naturiol a bwydydd artiffisial.

3.2 Rhoddodd **Daniel Lloyd, Arweinydd y Tîm Asesu Risg Cynhyrchion Rheoleiddiedig ar gyfer CCP,** drosolwg o'r wyddoniaeth y tu ôl i gynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd, gan ganolbwyntio ar y broses gynhyrchu ac asesu risg. Esboniodd fod CCPs yn cwmpasu amrywiaeth o fwydydd sy'n cael eu cynhyrchu trwy dyfu celloedd mewn meithriniad er mwyn creu cynnyrch bwyd. Esboniodd hefyd y camau sy'n gysylltiedig â chanfod llinellau cellog ar gyfer cynhyrchu, yn ogystal â'r camau sy'n gysylltiedig ag anfarwoli, twf celloedd mewn bioadweithyddion, a chynaeafu a phrosesu celloedd. Esboniodd Daniel fod asesu risg yn broses gyfannol sy'n ystyried pob elfen ar y cynnyrch terfynol a'r broses gynhyrchu, ond bod rhai o'r peryglon posib

allweddol yn gysylltiedig â'u defnydd fel bwydydd. Rhoddodd Daniel wybod nad y DU yw'r unig wlad sy'n gweithio i reoleiddio cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd i'w defnyddio mewn bwyd, gan fod Singapore, UDA ac Israel i gyd wedi cymeradwyo cynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd i'w bwyta gan bobl, gyda'r UE, y Swistir, Awstralia a Seland Newydd hefyd yn cynnal adolygiadau rheoleiddiol.

3.3 Trafododd **Josh Ravenhill, pennaeth y blwch tywod ar gyfer CCPs**, weledigaeth a chwmpas y blwch tywod, yn ogystal â'r hyn y gallai'r blwch tywod ei gyflawni. Aeth ati i egluro mai'r prif nod yw cyflymu'r broses o gael gwybodaeth am beryglon sy'n gysylltiedig â chynhyrchion a wneir drwy feithrin celloedd er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr wrth gefnogi arloesedd. Bydd yr ASB yn rhedeg y blwch tywod rheoleiddiol ar gyfer CCPs am ddwy flynedd o fis Chwefror 2025 ymlaen, gan weithio ar sail pedair gwlad. Mae'r blwch tywod wedi'i ariannu drwy Gronfa Blwch Tywod yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar gyfer Peiriannu Bioleg, ac mae'n ffurfio rhan o strategaeth peiriannu bioleg y llywodraeth. Y genhadaeth yw sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at gynhyrchion newydd sy'n ddiogel ac sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Esboniodd Josh mai'r amcanion yw:

1. Cytuno ar ddull o ymdrin â diogelwch bwyd,
2. Mynd i'r afael â chwestiynau hanfodol a darparu eglurder rheoleiddiol, a
3. Darparu ymgysylltiad gwell â'r diwydiant.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, bydd yr ASB yn cynnal gweithdai gyda chyfranogwyr, yn cyhoeddi canllawiau gwyddonol a rheoleiddiol pwrpasol, yn galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o asesu risg ceisiadau CCP unigol, yn darparu cefnogaeth arbenigol i gwmnïau sy'n bwriadu cyflwyno dossier CCP i'w chymeradwyo, yn sefydlu rhwydweithiau trawslywodraethol a rhyngwladol newydd, ac yn sefydlu is-bwyllgor newydd o'r Pwyllgor Cynghori ar Fwydydd a Phrosesau Newydd i gefnogi'r gwaith o asesu dossiers. Rhoddodd Josh drosolwg o'r cwmnïau sy'n cymryd rhan yn y blwch tywod CCP, ac eglurodd fod wyth cwmni, tri chorff academaidd, a dau sefydliad masnach wedi'u dewis ar sail ystod o feini prawf i sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o dechnolegau.

3.4 **Mark Bond, Uwch-reolwr Polisi ar gyfer y blwch tywod CCP –** Rhoddodd Mark drosolwg o nodau ac amcanion y gweithdai a gynhelir fel rhan o'r blwch tywod. Y nod cyntaf yw nodi peryglon diogelwch cyffredin, a'r dystiolaeth sydd ei hangen i liniaru'r risgiau hyn, gan sefydlu dulliau rheoleiddio cymesur o fewn rheoliadau presennol i symud ceisiadau yn eu blaen a chyhoeddi canllawiau ar y rhain, a'r ail yw mynd i'r afael â'r cwestiynau rheoleiddio cymhleth a gyflwynir gan y dechnoleg arloesol hon, gan gyhoeddi safbwyntiau i egluro i fusnesau beth yw'r llwybr i'r farchnad. O ran y nod o ddysgu am y peryglon sy'n gysylltiedig â CCPs, sut i'w lliniaru a sut i ddatrys cwestiynau rheoleiddio ynghylch awdurdodi CCPs ar farchnad Prydain Fawr, cyflawnir hyn mewn 3 cham:

**Hysbysu**: Sicrhau bod cyfranogwyr yn deall gweledigaeth y rhaglen blwch tywod ac yn cyfleu'r broses reoleiddio

**Dysgu**: Casglu gwybodaeth am arferion cyfranogwyr a nodi materion ychwanegol i fynd i'r afael â nhw

**Cyfathrebu**: Meithrin diwylliant o gydweithio a nodi rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu

3.5 **Trafodaeth y pwyllgor** – Roedd yn amlwg i aelodau WFAC mai diogelwch yw'r flaenoriaeth bwysicaf o hyd drwy gydol y gwaith hwn. Trafododd yr aelodau wahanol elfennau ar CCPs, gan ganolbwyntio ar:

- Integreiddio CCPs o fewn y ddeddfwriaeth fwyd bresennol
- Gofynion labelu ar gyfer cynhyrchion bwyd newydd
- Ystyriaethau mewnforio ac allforio ar gyfer y farchnad yng Nghymru
- Peryglon cemegol a biolegol posib wrth gynhyrchu CCPs
- Gallu awdurdodau lleol i fonitro a rheoleiddio'r prosesau newydd hyn
- Canfyddiadau defnyddwyr ynghylch dewis a bancio llinellau celloedd

Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Prifysgol Aberystwyth yn rhan o'r gwaith hwn, ac mae'n edrych ymlaen at ddiweddariadau yn y dyfodol ar y fenter Blwch Tywod a datblygiadau ym maes CCP.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth yn Hull, lle cyflwynodd yr adroddiad blynyddol gan WFAC. Bu croeso i'r adroddiad, a wnaeth gydbwyso cyflawniadau ôl-weithredol a chynlluniau sy'n edrych tua'r dyfodol.

## 5. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 24/04/02)

5.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiweddariad llafar ar yr adroddiad, a oedd yn cynnwys newyddion am gyllidebau a chynllunio busnes. Roedd yr adroddiad hefyd yn trafod gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn perthynas â Rheoleiddio ar Lefel Genedlaethol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad Llywodraeth Cymru o'r ASB yng Nghymru.

## 6. Unrhyw fater arall

6.1 Nododd yr aelodau y byddai'r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Gorffennaf 2025.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.